# CYNGOR SIR BENFRO

# IS-ADRAN DIOGELU'R CYHOEDD

# AMODAU TRWYDDED A CHANLLAWIAU AR GYFER GOFAL DYDD MASNACHOL I GŴN.

# Cynnwys


**1. AMODAU CYFFREDINOL**
1.1 Arddangos Trwydded
1.2 Cymeradwyaeth yr Awdurdod

**2. LLETY A'R AMGYLCHEDD**
2.1. Gwneuthuriad
2.2 Maint y Llety
2.3 Deunydd Gorwedd
2.4 Tymheredd a Gwresogi
2.5 Golau
2.6 Awyru
2.7 Glendid
2.8 Difa Plâu
2.9 Draenio a Chael Gwared ar Wastraff

**3. DEIET A MAETH**
3.1 Bwyd a Diod
3.2 Cyfleusterau Storio a Pharatoi Bwyd

**4. YMDDYGIAD ARFEROL**
4.1 Cyfleusterau Ymarfer
4.2 Goruchwylio
4.3 Y Nifer Fwyaf o Gŵn y Gellir eu Lletya a Gofynion Staffio

**5. IECHYD A LLES**
5.1 Cofrestru â Milfeddyg
5.2 Rheoli Clefydau a Brechu
5.3 Cyfleusterau Gwahanu
5.4. Gofynion Amrywiol
5.5 Cludo Cŵn
5.6 Diogelwch rhag Tân
5.7 Diogelwch Cyfarpar Trydanol

**6. CADW COFNODION**
6.1 Cofrestr
6.2 Gofynion Ychwanegol o ran Cofnodi

**7. DEDDF LLES ANIFEILIAID 2006**
7.1 Meddyginiaeth Reolaidd
7.2 Cymdeithasoli
7.3 Ysgogiad Gweledol
7.4 Adnabod Cŵn

**ARGYMHELLION**
Polisi Yswiriant

**MATERION ERAILL SY'N YMWNEUD Â GWEITHREDU LLETY TRWYDDEDIG**
A – Gweithdrefn Apelio
B – Canllawiau Rhagofalon Tân
C – Iechyd a Diogelwch

## 1. Amodau Cyffredinol

| Amod Trwydded | Canllawiau |
|---|---|
| **1.1 Arddangos Trwydded**<br><br>**a.** Rhaid arddangos copi o’r drwydded a’i hamodau mewn ffordd addas i’r cyhoedd mewn man amlwg yn y sefydliad. | |
| **1.2 Cymeradwyaeth yr Awdurdod**<br><br>**a.** Ni chaniateir i unrhyw anifeiliaid heblaw cŵn gael eu lletya yn y cyfleusterau trwyddedig heb gymeradwyaeth ysgrifenedig yr awdurdod lleol.<br>**b.** Ni chaniateir i gŵn crwydr gael eu derbyn ar gyfer Gofal Dydd.<br>**c.** Ni chaniateir cŵn bach o dan chwe mis oed.<br>**d.** Ni chaniateir lletya unrhyw gi dros nos.<br>**e.** Ni chaniateir cŵn gwryw cyfain na geist yn eu tymor.<br>**f.** Ni chaniateir derbyn unrhyw groesiadau o gŵn sydd wedi’u cofrestru o dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt 1976 (croesiad â blaidd) nac unrhyw gŵn sy’n destun hysbysiadau rheoli cŵn.<br>**g.** Ni chaniateir unrhyw blant o dan 5 oed ar y safle ar unrhyw adeg. | |

## 2. Llety a'r Amgylchedd

*Rhaid i gŵn gael eu cadw mewn llety sy'n briodol o ran gwneuthuriad, maint, man gorwedd, cyfleusterau ymarfer, tymheredd a gwresogi, goleuo, awyru, glendid, a gwaredu gwastraff.*

| Amod Trwydded | Canllawiau |
|---|---|
| **2.1. Gwneuthuriad**<br><br>**a.** Ni chaniateir i chi ddefnyddio unrhyw adeiladau na llety heblaw'r rhai a nodir ar y cynllun cymeradwy a atodir i'ch trwydded.<br>**b.** Mae'n rhad i'r llety gael ei osod a'i weithredu bob amser yn unol â chynllun cymeradwy.<br>**c.** Cyn gwneud unrhyw waith addasu, rhaid i gynlluniau gael eu cyflwyno i'r awdurdod lleol a'u cymeradwyo ganddo.<br>**d.** Ni chaniateir defnyddio unrhyw lety newydd nes bod yr awdurdod trwyddedu wedi'i gymeradwyo.<br>**e.** Rhaid i bob arwyneb mewnol a ddefnyddir ar waliau, lloriau, parwydydd, drysau a fframiau drysau fod yn llyfn ac yn anhydraidd ac wedi'i wneud o ddeunydd sy'n para.<br>**f.** Ni chaniateir defnyddio pren yn y rhannau noeth o wneuthuriad waliau mewnol, lloriau, parwydydd yn yr ardal i gŵn.<br>**g.** Os defnyddiwyd pren mewn gwneuthuriad allanol h.y. dodrefn/ffensys rhaid ei selio â chynnyrch diogel | Y cynllun cymeradwy yw'r diagram "diwyg" sy'n rhan o'ch trwydded flynyddol. Cynghorir pob trwyddedai yn gryf i geisio arweiniad ar unrhyw ganiatadau cynllunio posibl a all fod yn ofynnol o ran 'newid defnydd' adeiladau sy'n bodoli eisoes neu godi adeiladau newydd. Nid yw rhoi trwydded yn rhoi unrhyw fath o ganiatâd cynllunio.<br><br>Dylai'r cyfleuster gael ei ddylunio yn y fath fodd ag y bydd yn lleihau sŵn. Wrth eu dylunio dylid rhoi ystyriaeth briodol i sensitifrwydd mawr cŵn i sŵn amledd uchel lle y bo angen. Dylai'r cyfleuster gael ei ddylunio er mwyn sicrhau bod pob ci yn cael mynediad parhaus at fan cyfforddus, sych, glân a thawel heb ddrafftiau i orffwys.<br><br>Rhaid bod y safle yn cynnwys ardaloedd digonol ac addas i wahanu cŵn yn ddiogel yn grwpiau hydrin yn ôl eu hanghenion unigol. Mae angen i ardaloedd allanol fod yn ddiogel ar gyfer pob brid a maint o gŵn.<br><br>Dylai adeiladau, llwybrau, gerddi ac ardaloedd ymarfer gael eu |

| | |
|---|---|
| priodol er mwyn sicrhau bioddiogelwch digonol. Rhaid nad oes unrhyw fargodiadau sy'n debygol o achosi anaf.<br>**h.** Rhaid i barwydydd rhwng ardaloedd wedi'u gwahanu fod o wneuthuriad cadarn hyd at 1.1' o uchder o leiaf.<br>**i.** Rhaid i loriau pob adeilad ac ardal ymarfer fod wedi'u gwneud o ddeunyddiau llyfn, anhydraidd y gellir eu glanhau'n hawdd a rhaid iddynt ymgorffori pilen atal lleithder.<br>**j.** Rhaid i loriau fod â digon o oleddf er mwyn caniatáu draenio effeithiol i sianel ddraenio, a rhaid iddynt fod o ansawdd fel y gall y ci gerdded neu redeg heb lithro.<br>**k.** Rhaid i ddrysau fod yn ddigon cryf i wrthsefyll trawiad a chraffu a rhaid iddynt gau'n glos, a rhaid bod modd eu cau'n effeithiol.<br>**l.** Os defnyddir barrau a fframiau metel, rhaid iddynt fod o faint addas i atal cŵn rhag dianc, neu gael eu dal.<br>**m.** Os defnyddir ymylon metel, rhaid sicrhau nad ydynt yn achosi risg o anaf i'r ci.<br>**n.** Os defnyddir drysau plastig ag ymylon metel, rhaid i'r ymylon stribedi metel fod yn ddigon siamffrog i atal y ci rhag cael ei anafu.<br>**o.** Rhaid i'r llety gael ei adeiladu yn y fath fodd ag y bydd yn sicrhau diogelwch y ci.<br>**p.** Rhaid i bob ffenestr sy'n achosi risg diogelwch bob amser fod yn un nad oes modd dianc drwyddi. (wedi'i diogelu'n addas rhag cysylltiad a thorri)<br>**q.** Rhaid bod gan y safle ei fynedfa ei hun ac ni chaniateir rhannu mynediad e.e. grisiau/derbynfa a rennir ag eraill.<br>**r.** Rhaid i'r brif fynedfa gynnwys system gatiau dwbl. Rhaid i fynedfeydd eraill fod dan glo pan fydd cŵn yn ar y safle. | cynnal a'u cadw'n dda a bod mewn cyflwr da, diogel a glân.<br><br>Er mwyn sicrhau nad oes modd dianc drwy ffenestri dylent gael eu diogelu gan<br>rwyll asio, neu gael eu gwneud o wydr cryf, polycarbonad neu ddeunydd priodol arall sy'n gwrthsefyll trawiad.<br><br>Os oes sawl mynedfa i'r cyfleuster, yna ni ddylent gael eu defnyddio pan fydd cŵn yn bresennol. Bydd llawer o adeiladau yn ymgorffori Allanfa/Dihangfa Dân na ddylai byth gael ei rhwystro na'i chloi. |

| | |
|---|---|
| | |
| **2.2 Maint y Llety**<br><br>**a.** Rhaid i'r sefydliad ddarparu man cysgu/ymdawelu sy'n addas at gyfer cysur y ci sy'n cael ei letya, o ystyried maint a brîd.<br>**b.** Rhaid i bob sefydliad gynnwys ardal ymarfer sydd ar wahân i unrhyw fan cysgu/ymdawelu.<br>**c.** Wrth gyfrifo ardaloedd ymarfer rhaid cael 4.5 metr sgwâr o leiaf fesul ci (heb gynnwys man cysgu);<br>**d.** Ni chaniateir i fwy na chwe chi gael eu gwahanu gyda'i gilydd mewn man cysgu/ymdawelu.<br>**e.** Rhaid asesu brid a maint y ci a'i anghenion unigol cyn ei roi yn ei grwpiau cysgu/ymdawelu. | Byddai disgwyl i'r man cysgu fod yn 1.2 metr sgwâr fel arfer. Byddai hyn yn rhoi digon o le ar gyfer y gwely i gi cymedrol ei faint neu gi mawr a hyd at ddau gi bach neu gymedrol eu maint.<br><br>Dylai'r sefydliad fod yn ddigon mawr ar gyfer ardaloedd chwarae, ymarfer a gorffwys diogel, gan ystyried y niferoedd, maint, brîd ac anian y cŵn sydd i'w lletya. |
| **2.3 Deunydd Gorwedd**<br><br>**a.** Rhaid darparu deunydd gorwedd neu gyfarpar addas sy'n galluogi'r ci i fod yn gyfforddus ac y gellir ei lanhau'n ddigonol a'i ddiheintio a rhaid ei fod wedi'i leoli i ffwrdd o ddrafftiau.<br>**b.** Rhaid i'r holl ddeunydd gorwedd gael ei gadw mewn cyflwr glân a sych, heb barasitiaid.<br>**c.** Rhaid i wely ci fod o wneuthuriad anhydraidd sy'n para a rhaid iddo fod o faint addas ar gyfer brîd y ci a gedwir. | Yn ymarferol, gall y perchennog ddarparu gwely/deunydd gorwedd y ci ei hun.<br><br>Gallai deunydd gorwedd addas i'w ddarparu gan y sefydliad gynnwys 'gwely milfeddyg' neu ddeunydd cyfatebol. Mae modd golchi a sychu'r math hwn o ddeunydd gorwedd yn hawdd. |
| **2.4 Tymheredd a Gwresogi**<br><br>**a.** Bydd yn rhaid darparu dulliau addas a diogel o wresogi | Nid oes modd rheoli'n gaeth dymheredd mannau awyr agored i anifeiliaid symud o gwmpas a rhyngweithio â'i gilydd. Ni ddylid cadw cŵn yn gaeth i ardaloedd o'r fath mewn tywydd a all beri |

| | |
|---|---|
| unrhyw ardal fewnol gyffredin.<br>**b.** Rhaid darparu thermomedr tymheredd isaf - uchaf.<br>**c.** Rhaid i drwyddedeion sicrhau bod unrhyw gyfarpar gwresogi yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddio ar gyfer yr anifeiliaid a'r bobl sy'n gweithio yno.<br>**d.** Ni ddylid gosod cyfarpar gwresogi mewn lleoliad nac mewn modd lle y gallant achosi perygl tân, neu risg i gŵn. | cystudd iddynt.<br><br>Dylai'r deunyddiau a ddefnyddir ar adeiladau/mewn adeiladau ddiogelu'n ddigonol rhag amrywiadau mewn tymheredd drwy gydol y flwyddyn.<br><br>Er mwyn cynnal tymereddau ar y lefel ofynnol, efallai y bydd defnyddio ffynonellau unigol o wres ar gyfer cŵn yn ddigonol. O dan rai amgylchiadau, bydd angen gwresogi cefndir ychwanegol hefyd.<br><br>Rhaid i ddyfeisiau gwresogi ac oeri fod yn ddiogel ac yn rhydd rhag y risg o losgi neu drydanu. Ni chaniateir defnyddio cyfarpar fflam agored a dylid dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. |
| **2.5 Golau**<br><br>**a.** Yn ystod golau dydd rhaid darparu golau (naturiol os oes modd) yn yr ardaloedd ymarfer a chysgu er mwyn sicrhau bod pob rhan yn hollol weladwy.<br>**b.** Rhaid darparu goleuadau artiffisial yn y mannau a ddefnyddir pan fydd wedi nosi.<br>**c.** Rhaid gosod gorchuddion plastig clir ar bob golau artiffisial er mwyn sicrhau na chaiff cŵn eu hanafu gan wydr wedi torri. | Bydd angen i gŵn fod mewn amgylchedd sy'n darparu digon o olau yn ystod oriau golau dydd.<br>Bydd angen i oleuadau artiffisial fod ar gael er mwyn archwilio'r cŵn pan fydd yn dywyll |
| **2.6 Awyru**<br><br>**a.** Rhaid darparu system awyru barhaol ym mhob ardal fewnol i gŵn heb greu gormod o ddrafftiau, yn enwedig yn y man cysgu / ymdawelu. | Dylai'r system awyru yn llety mewnol pob ci roi digon o awyr iach o ansawdd addas a chyfyngu ar lefelau arogleuon, nwyon gwenwynig, llwch a chyfryngau heintus o bob math a'u hatal rhag lledaenu, ac er mwyn cael gwared ar wres a lleithder gormodol |

| | |
|---|---|
| | Dylai'r system awyru fod wedi'i dylunio er mwyn osgoi drafftiau a sŵn niweidiol. |
| **2.7 Glendid**<br><br>**a.** Rhaid cadw'r sefydliad yn lân ac ni ddylid caniatáu i faw na llwch ymgasglu a rhaid ei gynnal yn y fath fodd ag sy'n addas o ran gweithgarwch rheoli heintiau a chysur y cŵn<br><br>**b.** Rhaid cael gwared ar yr holl ysgarthion a deunydd budr ym mhob ardal a ddefnyddir gan y cŵn unwaith y dydd ac yn amlach os oes angen.<br>**c.** Rhaid i bob tegan, ffitiad a deunydd gorwedd gael eu glanhau'n drylwyr a'u ddiheintio cyn eu hailddefnyddio. (o leiaf unwaith y dydd) | Ceir rhestr o ddiheintyddion yn:<br><br>**http://disinfectants.defra.gov.uk/** |
| **2.8 Difa Plâu**<br><br>**a.** Rhaid cymryd camau i sicrhau bod pob safle yn rhydd o gnofilod, trychfilod a phlâu eraill a bod cŵn yn rhydd o barasitiaid allanol. | Dylid dilyn canllawiau'r gwneuthurwr wrth ddefnyddio cynhyrchion rheoli er mwyn lleihau'r risg i gŵn. |
| **2.9 Draenio a Chael Gwared ar Wastraff**<br><br>**a.** Rhaid bod y safle wedi'i gysylltu â'r brif system ddraenio neu system gwaredu carthion leol gymeradwy. | Dylai'r trwyddedai ystyried Cytundeb Gwastraff Masnach i gael gwared ar wastraff. |

| | |
|---|---|
| **b.** Rhaid i loriau gynnwys dulliau draenio effeithiol lle y bo angen.<br>**c.** Rhaid darparu cyfleusterau ar gyfer derbyn, storio a gwaredu gwastraff yn briodol. I'w cytuno ar adeg trwyddedu.<br>**d.** Rhaid cymryd gofal arbennig i wahanu gwastraff sy'n dod o drin cŵn sydd â chlefydau heintus neu eu trafod. | Dylai'r trwyddedai holi Asiantaeth yr Amgylchedd am ganllawiau cyfredol ar ddulliau gwaredu priodol. |

## 3. Deiet a Maeth

*Rhaid darparu digon o fwyd addas i bob ci. Rhaid i ddŵr dihalog fod ar gael drwy'r amser a rhaid iddo gael ei newid bob dydd. Rhaid bod cyfleusterau paratoi bwyd digonol ar gael.*

| **Amod Trwydded** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **3.1 Bwyd a Diod**<br>**a.** Rhaid darparu digon o fwyd addas i bob ci yn unol â chyfarwyddiadau'r cleient.<br>**b.** Rhaid darparu bwyd o'r fath ar yr adegau a nodir gan berchennog y ci.<br>**c.** Rhaid i ddŵr glân, ffres fod ar gael i gŵn drwy'r amser.<br>**d.** Rhaid bod llestri bwyta ac yfed o ddyluniad sy'n atal colli bwyd neu ddiod hyd y gellir yn ymarferol.<br>**e.** Rhaid bod modd glanhau llestri yn hawdd, eu diheintio a'u cadw mewn cyflwr glân. | Gallai hyn gael ei ddarparu gan berchennog y ci er mwyn osgoi newid sydyn yn neiet y ci a all achosi problemau treulio<br><br>Mae angen ystyried man bwydo i ffwrdd oddi wrth gŵn eraill (sy'n cael neu nad ydynt yn cael eu bwydo yn ystod eu harhosiad). Mae'n dibynnu ar angen y ci unigol p'un a oes angen darparu bwyd yn ystod ei arhosiad. |
| **3.2 Cyfleusterau Storio a Pharatoi Bwyd** | |

| | |
|---|---|
| **a.** Rhaid darparu cyfleusterau addas, sydd wedi'u hadeiladu a'u cynnal a'u cadw'n hylan, ar gyfer storio a pharatoi bwyd i'r cŵn.<br>**b.** Os caiff cig ffres a chig wedi'i goginio eu storio, rhaid i gyfleusterau oeri gael eu darparu. Rhaid osgoi achosion o halogi bwyd.<br>**c.** Rhaid darparu sinc â dŵr rhedegog poeth ac oer ar gyfer golchi offer cegin a llestri bwyta ac yfed.<br>**d.** Rhaid darparu cynwysyddion ar gyfer storio bwydydd a rhaid iddynt gael eu hadeiladu a'u cynnal mewn cyflwr da rhag trychfilod a phlâu eraill. | Gall y rhain fod mewn ystafell ar wahân neu mewn man dynodedig, yn benodol i'r safle.<br><br>Dylai fod modd glanhau a diheintio arwynebau'n hawdd yn ôl y gofyn a'u sychu'n gyflym. Mae angen cadw porthiant mewn ffordd briodol er mwyn sicrhau ei fod yn ffres ac yn sych ac nad oes risg y caiff ei halogi gan fermin. |

## 4. Ymddygiad Arferol

*Rhaid bod cŵn yn gallu arddangos patrymau ymddygiad arferol bob amser. Rhaid iddynt gael cyfle i symud o gwmpas a chael eu goruchwylio'n ddigonol.*

| **Amod Trwydded** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **4.1 Cyfleusterau Ymarfer**<br><br>**a.** Rhaid i sefydliadau gynnwys ardaloedd ymarfer/chwarae yn ychwanegol at y mannau cysgu/ymdawelu.<br>**b.** Rhaid iddynt fod yn ddigon mawr fel y gall cŵn redeg yn rhydd.<br>**c.** Rhaid i'r cyfleusterau fod yn ddiogel â system ddraenio ddigonol i atal dŵr rhag cronni.<br>**d.** Rhaid bod trefniadau hylendid a glanhau effeithiol ar waith er mwyn lleihau'r risg o heintio i'r eithaf.<br>**e.** Rhaid i'r safleoedd presennol hynny heb gyfleusterau ymarfer ychwanegol neu sydd â chyfleusterau nad ydynt | Lle y gall fod yn amhriodol i rai cŵn gael eu troi allan i ardaloedd cyffredin dylid gweithredu ateb amgen megis mynd am dro ar dennyn. Dylid ceisio caniatâd ysgrifenedig y perchennog os bydd hyn yn digwydd y tu allan i'r safle.<br><br>Dylid rhoi ystyriaeth i'r uchder angenrheidiol a'r deunydd ffensio a ddefnyddir ar gyfer yr ardal(oedd) ymarfer/chwarae, yn dibynnu ar y math o gŵn sy'n defnyddio'r cyfleuster, a'u maint.<br><br>Mae'n fwy anodd glanhau ardaloedd glaswelltog ac atal dŵr rhag cronni o gymharu ag iard goncrit neu gyfleuster tebyg. |

| | |
|---|---|
| yn cael eu defnyddio gynnig cyfleoedd ymarfer ar dennyn gyda chaniatâd perchennog y ci.<br>**f.** Rhaid i bob ci gael cyfleoedd ymarfer yn unol â'i anghenion. Bydd angen i drwyddedeion ystyried bod yn rhaid i bob ci gael amseroedd toiled rheolaidd os nad oes cyfleusterau allanol ar gael. | Dylid glanhau ysgarthion o leiaf unwaith y dydd ac efallai y bydd angen ymarfer amgen fel mynd am dro ar dennyn os bydd tywydd gwlyb yn achosi i'r ardal laswelltog fynd yn rhy leidiog/gwlyb. |
| **4.2 Goruchwylio**<br><br>**a.** Rhaid i unigolyn priodol dros 18 oed sydd â phrofiad perthnasol fod ar gael bob amser ar y safle yn ystod oriau agor er mwyn goruchwylio ac ymdrin ag unrhyw argyfyngau pryd bynnag y caiff cŵn eu lletya ar y safle.<br><br>**b.** Ni ddylai cŵn yn yr ardal fewnol na'r ardal allanol gyffredin gael eu gadael heb oruchwyliaeth ar unrhyw adeg.<br>**c.** Rhaid bod gan y sawl sy'n goruchwylio wybodaeth drylwyr a manwl o'r amodau trwyddedu a rhaid iddynt gydymffurfio â hwy bob amser.<br>**d.** Os darperir cyfleoedd ymarfer 'oddi ar y safle' ni chaniateir i unrhyw un o dan 16 oed wneud hynny.<br>**e.** Rhaid darparu polisi hyfforddiant ysgrifenedig i bob aelod o staff a dylid dangos bod staff wedi cael eu hyfforddi'n systematig. | Mae angen i unrhyw un sy'n goruchwylio'r cŵn feddu ar wybodaeth a phrofiad digonol i allu ymdrin â'r cŵn yn gywir ac yn ddiogel. Rhaid iddynt allu adnabod hefyd p'un a yw ymddygiad ci yn awgrymu bod problem a chymryd camau priodol.<br><br>Dylai pob aelod o staff gael cyfle i ddarllen y Cod Ymarfer ar gyfer Lles Cŵn ac ymgyfarwyddo ag ef, ynghyd â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol arall.<br><br>Gallai unrhyw achos o beidio â chydymffurfio ag amodau'r drwydded adlewyrchu'n anffafriol ar lefel cymhwysedd staff goruchwylio.<br><br>Mae darparwyr hyfforddiant achrededig yn cynnig cyrsiau perthnasol a all fod yn fuddiol i'r staff, ym marn y trwyddedai. |
| **4.3 Y nifer fwyaf o Gŵn y Gellir eu Lletya a Gofynion Staffio**<br><br>**a.** Gall safleoedd sydd wedi cael eu trwyddedu am y tro | Dylai nifer y staff fod yn ddigonol i sicrhau bod pob ci yn cael digon o sylw unigol er mwyn diwallu ei anghenion iechyd a lles |

| | |
|---|---|
| cyntaf fod ar gymhareb is rhwng staff a chŵn yn unol â disgresiwn yr arolygydd trwyddedu.<br>**b.** Nodir y nifer fwyaf o gŵn y gellir eu cadw ar unrhyw adeg benodol ar y drwydded ac ni chaniateir cadw mwy na hynny.<br>**c.** Ni fydd cyfanswm nifer y cŵn ar y drwydded sy'n cael eu goruchwylio ar y safle fesul gweinydd yn fwy na 10 o dan unrhyw amgylchiadau.<br>**d.** Os darperir cyfleoedd ymarfer 'oddi ar y safle' mae angen i'r lefelau staffio sicrhau bod y gymhareb rhwng staff a chŵn yn cael ei chynnal i'r cŵn sy'n weddill ar y safle.<br>**e.** Ni chaniateir i unrhyw unigolyn fynd â mwy na chwe chi am dro ar unrhyw adeg benodol.<br>**f.** Caiff nifer y cŵn a ganiateir ei chwtogi os bydd methiant i gydymffurfio â gofynion eraill y drwydded. | unigol tra bydd yn cael ei letya.<br><br>Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried y cartref yn ei gyfanrwydd; gan gynnwys y llety sydd ar gael, cyfleusterau ymarfer, bodloni gofynion iechyd a lles a lefel y gydymffurfiaeth o hyd â'r drwydded.<br><br>Byddai'r gofynion staffio pan ddarperir cyfleoedd ymarfer oddi ar y safle yn cynyddu; er enghraifft, pe bai'r sefydliad wedi'i drwyddedu ar gyfer 20 o gŵn (dau aelod o staff) a phe bai un aelod o staff yn mynd â'r nifer fwyaf o gŵn am dro oddi ar y safle ag a ganiateir, sef chwech, yna byddai 14 o gŵn yn weddill yn y cyfleuster.<br><br>Ni fyddai amser toiled am ychydig o funudau yn agos i'r cyfleuster yn cael ei ystyried yn ymarfer oddi ar y safle.<br><br>Pan na fydd yr awdurdodau trwyddedu yn fodlon ar allu'r darpar ddeiliad trwydded, neu'r deiliad trwydded presennol, dylent leihau nifer y cŵn y gall gweinydd ofalu amdanynt. Gall tystiolaeth gynnwys methiant i gydymffurfio ag amodau'r drwydded e.e. diffyg ymarfer i gŵn a diffyg hylendid a chwynion wedi'u cadarnhau. |

## 5. Iechyd a Lles

*Rhaid cymryd rhagofalon rhesymol i atal a rheoli lledaeniad clefydau heintus ymhlith anifeiliaid. Rhaid i unrhyw anifail sâl neu anafedig gael gofal a thriniaeth briodol yn ddi-oed. Bydd angen cyfleusterau gwahanu, cyfarpar cymorth cyntaf a mesurau diogelwch tân.*

| Amod Trwydded | Canllawiau |
|---|---|
| **5.1 Cofrestru â Milfeddyg**<br><br>**a.** Rhaid i bob sefydliad gofrestru â milfeddygfa a sicrhau bod y manylion llawn ar gael i'r Awdurdod Trwyddedu.<br>**b.** Rhaid galw am filfeddyg y sefydliad os oes arwyddion o glefyd, anaf neu salwch.<br>**c.** Pan fydd unrhyw gi yn sâl neu'n anafedig, rhaid i unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd gan filfeddyg i'w drin gael eu dilyn yn gaeth. | Mae cyfeiriadau milfeddygfeydd ar gael gan Goleg Brenhinol y Milfeddygon: **http://www.rcvs.org.uk/FindAVet** |
| **5.2 Rheoli Clefydau a Brechu**<br><br>**a.** Rhaid cymryd rhagofalon rhesymol i atal a rheoli lledaeniad clefydau heintus a pharasitiaid ymhlith cŵn, y staff ac ymwelwyr.<br>**b.** Ar gyfer cŵn sy'n cael gofal dydd bydd angen cofnod cyfredol o ddiogelwch a gymeradwywyd gan filfeddyg rhag clefyd y cŵn, peswch cwt, hepatitis, parfofeirws, leptosbirosis a chlefydau perthnasol eraill.<br>**c.** Rhaid hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu am farwolaeth unrhyw anifail ar y safle. Rhaid i'r Trwyddedai wneud trefniadau i'r corff gael ei storio mewn milfeddygfa nes bod y perchennog yn dychwelyd. | Gall rhagofalon digonol gynnwys brechiadau atgyfnerthu blynyddol ac unrhyw fesurau ataliol eraill yn ôl disgresiwn y trwyddedai. Ym mhob achos, dylid ymgynghori â milfeddyg.<br><br>Mae rhestr o ddiheintyddion cymeradwy ar gael yn: **http://disinfectants.defra.gov.uk/** |

| | |
|---|---|
| **d.** Rhaid i'r trwyddedai hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o fewn un diwrnod gwaith os bydd ci yn datblygu clefyd heintus. Rhaid hefyd ymgynghori â'i filfeddyg i gael cyngor ar gamau rhagofal.<br>**e.** Ar ôl achos o glefyd heintus yn ystod unrhyw arhosiad, rhaid i'r safle fynd drwy gyfnod cwarantin rhesymol cyn derbyn unrhyw gŵn newydd. Caiff y cyfnod hwn ei bennu gan yr Awdurdod Trwyddedu fel y cytunir arno â'i filfeddyg awdurdodedig.<br>**f.** Rhaid cadw cofnod o bob cyfnod o glefyd heintus ynghyd â'r manylion am y cyfnod cwarantin a roddwyd ar waith. | |
| **5.3 Cyfleusterau Gwahanu**<br><br>**a.** Rhaid i gyfleusterau gwahanu gydymffurfio ag amodau eraill y drwydded ond rhaid iddynt hefyd fod ar wahân yn ffisegol.<br><br>**b.** Rhaid gwahanu unrhyw gŵn sy'n dangos arwyddion o unrhyw glefyd neu salwch oddi wrth unrhyw gŵn eraill nes bod cael cyngor milfeddygol. Rhaid bod cyfleusterau digonol ar y safle trwyddedig er mwyn sicrhau bod modd gwahanu unrhyw anifail sâl yn ffisegol a thrwy rwystr yn effeithiol. | Yn yr achos cyntaf, dylid defnyddio cyfleusterau gwahanu os oes gan staff unrhyw bryderon o ran iechyd ci cyn cysylltu â milfeddyg.<br><br>Dim ond at ddefnydd dros dro y gellir gwahanu unrhyw gi nes bod modd mynd ag ef i'r filfeddygfa neu ei ddychwelyd adref, yn dibynnu ar y cyngor milfeddygol cychwynnol a gafwyd.<br><br>Dylai mesurau bioddiogelwch sylfaenol gynnwys golchi'r dwylo, diheintio esgidiau a newid dillad (yn enwedig os yw'r clefyd wedi'i gadarnhau) wrth fynd i mewn i'r cyfleuster a'i adael.<br><br>Mae rhestr o ddiheintyddion cymeradwy ar gael yn:<br>**http://disinfectants.defra.gov.uk/** |
| **5.4. Gofynion Amrywiol** | |

| | |
|---|---|
| **a.** Rhaid i focs cymorth cyntaf â digon o eitemau sy'n addas i'w defnyddio ar gŵn fod ar gael ar y safle a rhaid iddo fod yn hygyrch.<br>**b.** Os bydd ci yn dianc o'r sefydliad trwyddedig neu'n mynd ar goll, rhaid i drwyddedeion roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu cyn gynted ag y bo'n ymarferol a heb ormod o oedi. Rhaid rhoi manylion llawn am ddyddiad, amser, lleoliad ac amgylchiadau'r digwyddiad, disgrifiad o'r ci, manylion llawn y perchennog, rhif microsglodyn y ci ac unrhyw gamau y mae'r trwyddedai eisoes wedi'u cymryd i ddod o hyd i'r ci i'r Awdurdod Trwyddedu. | Cynghorir y trwyddedai i ofyn i berchenogion pryd roedd gast heb ei hysbaddu yn ei thymor ddiwethaf fel y bydd y staff yn ymwybodol os yw'r ast yn debygol o fod yn ei thymor yn ystod yr arhosiad.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau yn gweithredu llinell frys "y tu allan i oriau" a gellir rhoi gwybod i'r cyfleuster hwn am unrhyw ddigwyddiadau yn y lle cyntaf os na allwch gysylltu â'ch Awdurdod Trwyddedu. Dylid hefyd hysbysu asiantaethau fel yr Heddlu a Gwasanaeth Wardeiniaid Cŵn y Cyngor hefyd ar y cyfle cyntaf posibl. |
| **5.5 Cludo Cŵn**<br><br>**a.** Rhaid i drwyddedeion sy'n cynnig gwasanaethau cludo a danfon sicrhau bod y cerbydau a ddefnyddir yn cydymffurfio â'r rheoliadau Lles Anifeiliaid wrth eu Cludo presennol.<br>**b.** Wrth gludo cŵn dylid tynnu eu tennyn cyn iddynt deithio er mwyn eu hatal rhag tagu. | Mae'r ddeddfwriaeth yn diffinio'r rheoliadau er mwyn sicrhau 'Lles Anifeiliaid wrth eu Cludo'. Gallwch ofyn i'ch arolygydd trwyddedu am fanylion y rheoliadau presennol. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys y canlynol: Cawell/cewyll wedi'i ddiogelu/wedi'u diogelu ac wedi'i awyru/wedi'u hawyru'n addas. Yn ogystal â'r gofyniad i ddal awdurdodiad cludwr. |
| **5.6 Diogelwch rhag Tân**<br><br>**a.** Rhaid rhoi cynllun gwacáu mewn argyfwng a gweithdrefn seinio rhybudd am dân ar waith, y mae'n rhaid hysbysu'r staff ohonynt.<br>**b.** Rhaid iddynt gael eu gosod lle y gall y staff eu gweld.<br>**c.** Dylai'r weithdrefn hon gynnwys cyfarwyddiadau o ran i ble y dylid symud y cŵn.<br>**d.** Rhaid bod dull digonol o seinio rhybudd os bydd tân neu argyfwng arall. | Yn achos rhagofalon tân bydd angen ystyried hefyd: Mynediad o ran Diffodd Tân a Chyflenwadau Dŵr, Ffyrdd o Ddianc, Arwyddion Dim Smygu, Gosodiadau Trydanol, offer diffodd tân a hysbysiadau. Am fanylion llawn cyfeiriwch at Atodlen B a atodir. |

| | |
|---|---|
| **e.** Rhaid i offer diffodd tân a synwyryddion gael eu cynnal a'u cadw'n briodol a bydd angen rhoi gwasanaeth i ddiffoddwyr tân neu gael rhai newydd yn ôl yr angen.<br>**f.** Rhaid cadw pob gosodiad ac offer trydanol mewn cyflwr diogel.<br>**g.** Rhaid gosod system torrwr cylched cerrynt gweddillol.<br>**h.** Ni ddylid gosod cyfarpar gwresogi mewn lleoliad nac mewn modd lle y gallant achosi perygl tân, neu risg i gŵn.<br>**i.** Rhaid cymryd rhagofalon i atal deunydd a all achosi perygl tân rhag ymgasglu. | |
| **5.7 Diogelwch Cyfarpar Trydanol**<br><br>**a.** Rhaid i chi sicrhau bod pob system drydanol yn cael ei hadeiladu a'i chynnal yn ddigonol, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, er mwyn atal perygl, yn unol â Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989. | I'ch helpu i gydymffurfio â'r rheoliadau gweler yr adran ynglŷn â gosodiadau trydanol. |

## 6. Cadw Cofnodion

*Rhaid cadw cofnodion yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth sy'n nodi'r holl wybodaeth berthnasol am bob ci, gan gyfeirio at y cŵn ar y safle, er mwyn sicrhau bod y staff yn gwbl ymwybodol o ofynion unigol pob ci.*

| **Amod Trwydded** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **6.1 Cofrestr**<br><br>**a.** Rhaid cadw cofrestr o bob ci. Mae'n rhaid i'r wybodaeth a | Dylai'r gofrestr fod mewn fformat sy'n glir ac yn hawdd ei ddeall |

| | |
|---|---|
| gedwir gynnwys y canlynol:<br><br>• Cofnodi AM / PM neu ddiwrnod llawn dyddiadau / amseroedd gofal dydd<br>• enw'r ci, a rhif y microsglodyn.<br>• disgrifiad, brîd, oedran a rhyw'r ci<br>• enw, cyfeiriad a rhif ffôn y perchennog neu'r ceidwad<br>• enw, cyfeiriad a rhif ffôn y person cyswllt tra bydd y ci yn cael gofal<br>• enw, cyfeiriad a rhif ffôn milfeddyg y ci<br>• dyddiad gadael arfaethedig a gwirioneddol, gofynion iechyd, lles a maeth<br><br>**b.** Rhaid i gofnodion fod ar gael am o leiaf 24 mis a'u cadw yn y fath fodd ag y bydd yn galluogi swyddog awdurdodedig i ddod o hyd i wybodaeth o'r fath yn hawdd.<br>**c.** Os caiff cofnodion eu cadw ar gyfrifiadur, rhaid cadw copi caled.<br>**d.** Rhaid i'r gofrestr hefyd fod ar gael bob amser i aelodau o staff y llety cathod.<br>**e.** Rhaid cadw cofnod digwyddiadau/cwynion o unrhyw ddigwyddiadau ar y safle sy'n cynnwys unrhyw gi. | gan unrhyw aelod o staff a'r arolygydd trwyddedu. |
| **6.2 Gofynion Ychwanegol o ran cofnodi**<br><br>**a.** Rhaid arddangos manylion pob ci sy'n cael gofal ar fwrdd gwyn/du sy'n cofnodi amser cyrraedd a gadael ar unrhyw ddiwrnod penodol. Rhaid nodi manylion y ci yn glir os oes unrhyw broblemau iechyd, problemau ymddygiadol ac ati angen tennyn wrth fynd am dro ac ati. | Gall bwrdd gwyn/du sy'n cynnwys manylion pob ci, h.y. enw, brîd, gofynion deietegol neu arbennig roi 'cipolwg' ar yr holl gŵn sy'n cael eu lletya yn y cyfleuster.<br><br>Byddai defnyddio system syml o nodi pan fydd cŵn yn dod i mewn ac yn mynd allan, gan gynnwys ymarfer oddi ar y safle ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall yn ddefnyddiol i'r staff hefyd. |

## 7. Deddf Lles Anifeiliaid 2006 – Gofynion Dyletswydd Gofal

Mae adran 9 o'r Ddeddf uchod yn gosod dyletswydd gofal ar y sawl sy'n gyfrifol am anifail. Mae'r Ddeddf yn nodi bod person yn cyflawni trosedd os nad yw'n cymryd camau rhesymol i ddiwallu anghenion yr anifail hwnnw. Er mwyn i chi gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn, mae'r Cyngor wedi nodi gofynion penodol a chanllawiau y mae'n rhaid i chi eu dilyn.

Pan fo achos posibl o dorri Dyletswydd Gofal o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, gall y Cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn, gyhoeddi Hysbysiad Gwella i unioni'r broblem.

| Amodau Trwyddedu | Canllawiau |
|---|---|
| **7.1 Meddyginiaeth Reolaidd**<br><br>**a.** Pan fo angen meddyginiaeth neu driniaeth reolaidd/ddyddiol ar gi rhaid iddi gael ei rhoi gan unigolyn cymwys ac addas.<br>**b.** Rhaid trafod yn llawn faint o feddyginiaeth i'w rhoi a pha mor aml a chofnodi hynny cyn arhosiad y ci.<br>**c.** Rhaid i bob meddyginiaeth gael ei storio a'i labelu'n addas. | Mae'n arfer da i'r trwyddedai fynnu cael tystiolaeth ysgrifenedig o ran unrhyw ofynion o ran meddyginiaeth er mwyn diogelu iechyd a lles y ci a diogelu ei hun os bydd unrhyw broblemau yn y dyfodol. |
| **7.2 Cymdeithasoli**<br><br>**a.** Rhaid i bob ci gael cyflwyniad / asesiad o'i anian cyn dod i'r cyfleuster. Rhaid i hwn gael ei gofnodi ar yr ymweliad cychwynnol.<br>**b.** Rhaid rhoi cyfle i bob anifail ryngweithio'n ddyddiol a chael ei ysgogi. | Dylid rhoi cyfleoedd priodol i symud o gwmpas, chwarae a chael mathau eraill o gysylltiad â phobl er mwyn sicrhau bod cŵn yn cael digon o gysylltiad â phobl, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, ac yn ddiogel, ac yn gymesur â hyd arhosiad pob ci.<br><br>Mae llawer o gŵn yn cael cwmnïaeth pobl drwy'r amser bron ond heb fawr ddim cysylltiad â chŵn eraill, os o gwbl. Gallai gosod y cŵn hyn mewn amgylchedd lle mae nifer o gŵn achosi |

| | |
|---|---|
| | ofn a straen, felly wrth ymgymryd ag unrhyw gymdeithasoli dylid ystyried anian y ci unigol a'i anghenion, ynghyd â dymuniadau'r cleient |
| **7.3 Teganau a Dodrefn**<br><br>**a.** Dylai pob tegan fod yn ddiogel ac yn briodol ar gyfer y ci a maint y ci.<br>**b.** Dylai pob eitem gael ei harchwilio'n rheolaidd o ran ei haddasrwydd (traul)<br>**c.** Bydd angen i unrhyw ddodrefn fod yn ddiogel ac yn addas at ddefnydd cŵn a chael eu cynnal a'u cadw er mwyn atal unrhyw risg o anaf. | Dylai unrhyw beth a ddefnyddir yn y sefydliad fod yn briodol at ddefnydd y cŵn; eitemau sy'n para'n dda, sy'n hawdd i'w glanhau ac nad oes modd eu cnoi na'u difrodi'n hawdd.<br><br>Dylid archwilio eitemau'n rheolaidd am arwyddion o dreulio, a chael gwared ar unrhyw beth sy'n debygol o achosi niwed neu atal prosesau glanhau priodol. |
| **7.4 Adnabod Cŵn**<br><br>**a.** Rhaid bod modd adnabod cŵn yn hawdd drwy ddulliau addas.<br>**b.** Os caiff cŵn gyfleoedd ymarfer 'oddi ar y safle' rhaid iddynt wisgo coler a thag adnabod. | Dylai pob ci wisgo tagiau adnabod ci'r safle e.e.: "Rwy'n aros yn Gofal Dydd ABC i gŵn" a manylion cyswllt.<br><br>Mae hyn yn arfer da ac yn arbennig o bwysig pan fydd cŵn yn cael cyfleoedd ymarfer (gyda chaniatâd y perchennog) y tu allan i'r safle trwyddedig. Os bydd ci'n mynd ar goll bydd modd dod ag ef yn ôl i'r safle heb oedi. |

**Argymhelliad**

| **Argymhelliad** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Polisi Yswiriant** | Dylai'r yswiriant ddarparu ar gyfer pob math o anffawd a all ddigwydd i gi, megis gofal brys gan filfeddyg, colli ci, |

| | |
|---|---|
| Argymhellir yn gryf y dylai pob sefydliad lletya drefnu yswiriant cynhwysfawr a digonol. | atebolrwydd trydydd parti ac atebolrwydd cyflogwr lle y bo'n gymwys |

**MATERION ERAILL SY'N YMWNEUD Â GWEITHREDU LLETY TRWYDDEDIG.**

## A. <u>GWEITHDREFN APELIO</u>

**<u>Deddf Lletya Anifeiliaid 1963 - Adran 1 (4)</u>**

Any person aggrieved by the refusal of a local authority to grant such a licence, or by any condition subject to which such a licence is proposed to be granted, may appeal to a magistrates' court; and the court may on such an appeal give such directions with respect to the issue of a licence or, as the case may be, with respect to the conditions subject to which a licence is to be granted as it thinks proper.

## B. <u>CANLLAWIAU RHAGOFALON TÂN</u>

Darperir y wybodaeth ganlynol i drwyddedeion, i'w helpu i gydymffurfio â'r gofynion o ran rhagofalon tân a nodir yn amodau trwydded y Cyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i gamau priodol gael eu cymryd i ddiogelu anifeiliaid os bydd tân neu argyfwng arall.

Nod y canllawiau yw sicrhau bod y ffyrdd o ddianc a rhagofalon tân cysylltiedig yn ddigonol ar gyfer deiliaid dynol.
Dylid cofio bod gofynion diogelwch tân ar gyfer pobl wedi'u cwmpasu mewn deddfwriaeth arall o bosibl.

Rhaid ystyried y materion canlynol:

1. Mynediad o ran Diffodd Tân a Chyflenwadau Dŵr - Dylai fod mynediad da (o leiaf 3.7m o led) i beiriannau tân gyrraed pob hydrant a ffynonellau eraill o ddŵr a dylid darparu lleiniau caled. Dylai bwrdd enw'r safle gael ei arddangos yn glir wrth ymyl y ffordd fynediad agosaf.

2. Ffyrdd o Ddianc - Dylai'r llwybrau dianc i anifeiliaid gael eu cynllunio fel y bydd modd iddynt redeg allan yn syth o adeiladau, gyda chyn lleied o gymorth â phosibl gan bobl. Dylid dylunio'r cyfan fel y gall anifeiliaid gael eu symud o'r adeilad yn gyflym a dylid osgoi troeon llym, rhwystrau a rampiau yn y llwybrau dianc hyd y gellir.
    a) Dylai allanfeydd pob safle fod yn ddigon llydan ac uchel er mwyn rhoi mynediad hawdd at yr anifeiliaid drwy'r amser.
    b) Dylai fod modd agor yr allanfeydd yn hawdd o'r tu mewn heb ddefnyddio allwedd.
    c) Os bydd angen, dylid darparu bod modd cysylltu â deiliad allwedd yn hawdd.

Mewn adeiladau sydd dros 18 metr o hyd neu lle mae cryn nifer o anifeiliaid yn cael eu lletya, dylid darparu o leiaf ddwy allanfa a'u lleoli mor bell i ffwrdd oddi wrth ei gilydd â phosibl. Ni ddylai'r pellter teithio fod yn fwy na 45 metr.

3. Arwyddion Dim Smygu - Dylid arddangos hysbysiadau dim smygu wrth ymyl gwair a gwellt a lle y bo'n ymarferol dylid cymryd rhagofalon ymarferol rhag mynediad heb awdurdod, yn enwedig gan blant.

4. Gosodiadau Trydanol - dylai gosodiadau trydanol, gan gynnwys lampau, gael eu glanhau'n rheolaidd er mwyn osgoi gormod o luwch. Dylai cyfarpar trydanol, peiriannau gwresogi ac ati gael eu lleoli a'u clymu'n sownd er mwyn sicrhau eu bod yn bellter diogel oddi wrth unrhyw ddeunydd gorwedd llosgadwy sy'n debygol o gronni.

5. Offer Diffodd Tân

a. Diffoddwyr Tân Cludadwy - Argymhellir y canlynol fel gofyniad sylfaenol:

- Bydd angen o leiaf 2 ddiffoddydd tân 9 litr ar gyfer adeiladau o dan 200 metr sgwâr. Ar gyfer adeiladau dros 200 metr sgwâr rhaid darparu diffoddydd tân ychwanegol am bob 200 metr sgwâr ychwanegol neu ran o hynny.
- Rhaid i ddiffoddwyr tân cludadwy gydymffurfio â gofynion BS EN 3 a chael eu gosod a'u cynnal a'u cadw yn unol â'r argymhellion a roddir yn BS 5306.
- Yn dibynnu ar ganlyniad eich asesiad risgiau tân, efallai y bydd modd lleihau hyn i un diffoddydd mewn safle bach iawn y mae ei arwynebedd llawr yn llai na $90m^2$.
- **Ni ddylid** defnyddio diffoddwyr tân sy'n swnllyd pan gânt eu gweithredu e.e. CO2, neu gymylau mawr o bowdr sych, wrth ymyl anifeiliaid.

b. Olwyni Piben Tân - Gellir darparu olwyni piben tân yn lle diffoddwyr tân cludadwy. Dylai fod o leiaf un bipen ar gyfer pob 800 metr sgwâr o arwynebedd neu ran o hynny. Dylai gydymffurfio â BS 5306: Rhan 1. Gall pibau golchi fod yn dderbyniol ar yr amod bod llif cyson o ddŵr sy'n gallu cynhyrchu chwistrell o ddŵr o 5 metr i ffwrdd o leiaf. Ni ddylai olwyni piben tân fod yn fwy na 45m o hyd a dylid eu lleoli fel y gall y ffroenell gyrraedd o fewn 6m i bob rhan o'r safle a ddiogelir.

6. Hysbysiadau Tân - Dylai pob aelod o staff yn y llety cathod fod yn gyfarwydd â pha gamau y mae'n rhaid eu cymryd os bydd tân. Dylid darparu hysbysiad ysgrifenedig, clir mewn man amlwg sy'n nodi'r camau i'w cymryd os bydd tân a lleoliad y ffôn agosaf.

Gall yr hysbysiad hwn gynnwys y canlynol:

"Os gwelwch dân, sicrhewch fod yr adeilad dan sylw yn cael ei wagio.
Ffoniwch y Frigâd Dân {mae'r ffôn agosaf yn ………………}.
Ceisiwch ddiffodd y tân drwy ddefnyddio'r offer diffodd tân a ddarperir, os yw'n ddiogel i chi wneud hynny ac ati"

7. *Cyfeirnod Map yr Arolwg Ordnans - Dylid nodi rhif cyfeirnod map yr Arolwg Ordnans ar gyfer y safle a'i arddangos ar yr Hysbysiad Tân a ddarperir.*

Mae **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** yn ei gwneud yn ofynnol i roi'r rhagofalon tân angenrheidiol ar waith er mwyn diogelu'r unigolion perthnasol os bydd tân, ac yn ardal pob safle y mae'r ddeddfwriaeth yn gymwys iddo.

Y 'person cyfrifol' sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth â'r gorchymyn. Mewn gweithle, y cyflogwr ac unrhyw berson arall sy'n rheoli unrhyw ran o'r safle, e.e. y deiliad neu'r perchennog, yw'r person cyfrifol. Ym mhob safle arall, y person(au) sy'n rheoli'r safle fydd yn gyfrifol.

Mae'n rhaid i'r person cyfrifol wneud y canlynol:

Cynnal Asesiad Risgiau Tân, y mae'n rhaid cofnodi'r canfyddiadau arwyddocaol sy'n deillio ohono os cyflogir pump neu fwy o bobl, os yw'r safle wedi'i drwyddedu neu os oes hysbysiad addasiadau mewn grym.

Er mwyn eich cynorthwyo ymhellach, mae'r Fire Safety Guide to Animal Premises and Stables (ISBN: 978 1 85112 884 6) ar gael gan y llyfrfa neu drwy wefan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (www.communities.gov.uk).

## C. IECHYD A DIOGELWCH

Mae cyfraith iechyd a diogelwch yn gymwys i bob busnes, ni waeth pa mor fach. Fel cyflogwr neu berson hunangyflogedig, chi sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn eich busnes. Mae angen i chi gymryd y camau cywir i leihau'r risgiau a berir gan beryglon yn y gweithle a darparu amgylchedd gwaith diogel.

Ceir canllaw "Health and Safety made simple". Mae'r canllaw hwn yn gwneud bywyd yn haws i chi drwy ddarparu'r wybodaeth sylfaenol am yr hyn y mae angen i chi ei wneud mewn un man. Bydd yn eich helpu i ddechrau rheoli iechyd a diogelwch yn eich busnes.

Ar gyfer gweithgareddau gwaith, efallai y bydd angen i chi wneud pethau ychwanegol er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Mae rhagor o ganllawiau ar bynciau penodol, megis rheoli asbestos, atal salwch oherwydd cyswllt ag anifeiliaid ac ati, ac asesiadau risg enghreifftiol ar gael ar-lein yn www.hse.gov.uk . Gallwch hefyd gysylltu â thîm diogelwch Cyngor Sir Penfro drwy ffonio 01437 775179 a gofyn am y swyddog ar ddyletswydd neu drwy anfon e-bost atom yn health&safety@pembrokeshire.gov.uk.

Gellir lawrlwytho'r daflen "Health and Safety made simple" drwy ddilyn y ddolen hon:
http://www.hse.gov.uk/pubns/indg449.pdf